# Coronafeirws a Fi

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| CYFLWYNIAD I'R YMGYNGHORIAD | 3 |
| CRYNODEB O'R CANFYDDIADAU ALLWEDDOL | 5 |
| SUT CYNHALIWYD YR AROLWG | 7 |
| CANFYDDIADAU'R AROLWG | |
| TEIMLADAU | 11 |
| CEFNOGAETH IECHYD MEDDWL AC EMOSIYNOL | 16 |
| ADDYSG | 17 |
| GWYBODAETH | 23 |
| YR IAITH GYMRAEG | 25 |
| CHWARAE A HAMDDEN | 26 |
| GWEITHGAREDD LLUNIAU | 28 |
| Y CAMAU NESAF | 31 |

# Coronafeirws a Fi

Ar 13 Mai 2020 lansiwyd yr ymgynghoriad 'Coronafeirws a Fi' i ddysgu am brofiadau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Casglodd yr ymgynghoriad hwn wybodaeth am fywydau dros 23,700 o blant 3-18 oed, ac fe'i cynhaliwyd dros gyfnod o bythefnos ar adeg pan oedd cyfyngiadau i gadw cymunedau yng Nghymru yn ddiogel wedi bod ar waith ers dau fis.

Er bod y cyfyngiadau'n effeithio ar bawb, mae'r ymgynghoriad hwn yn dangos bod plant wedi cael profiadau gwahanol iawn i'w gilydd. Mae rhai wedi profi galar, trallod a phryder. Mae llawer wedi gweld eisiau eu ffrindiau, eu teuluoedd, ac yn teimlo eu bod yn colli cyfle i gael addysg. Ar yr un pryd, mae llawer o blant yn sôn am werthfawrogi cyfle i dreulio mwy o amser gyda'u teulu, i chwarae ac ymlacio mwy, neu i ddysgu mewn ffordd wahanol.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae plant a phobl ifanc wedi profi cyfyngu ar eu hawliau dynol, sy'n cael eu gwarantu yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Ond nid yw'r hawliau dynol yma wedi mynd i ffwrdd, a chyn gynted ag y bydd hynny'n ddiogel, bydd plant yn cael mwynhau eu hawliau eto.

Diben yr ymgynghoriad Coronafeirws a Fi yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn profi eu hawl o dan CCUHP i fynegi barn a chyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r adroddiad cychwynnol hwn yn cynnwys trosolwg o brif ganlyniadau'r ymgynghoriad. Mae adroddiad arall, manylach, yn cael ei ddatblygu, gyda'r bwriad o sicrhau bod yr holl safbwyntiau pwysig mae plant wedi'u rhannu yn cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau ar lefel genedlaethol. Bydd hyn yn sicrhau bod hawliau plant yn ganolog i'r camau nesaf a gymerwn yng Nghymru i gadw ein plant a'n pobl ifanc yn hapus, yn iach ac yn ddiogel.

## Pwy ddatblygodd yr ymgynghoriad hwn?

Mae'r ymgynghoriad Coronafeirws a Fi wedi bod yn ymgynghoriad rhwng pedwar sefydliad mewn partneriaeth:

Llywodraeth Cymru

Comisiynydd Plant Cymru

Senedd Ieuenctid Cymru

Plant yng Nghymru

Fel Llywodraeth sydd wedi ymrwymo i'r hawliau plant a gyflwynir yn CCUHP, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi cyfleoedd i blant fynegi eu barn, a dylai fod yn atebol iddyn nhw am y pethau mae'n eu gwneud. Mae'r arolwg yma'n un ffordd o wneud hynny yn ystod cyfyngiadau'r coronafeirws. Mae Plant yng Nghymru yn sefydliad sydd â sawl rôl, ac fel rhan o'u gwaith fe'u comisiynwyd gan y Llywodraeth i helpu'r Llywodraeth i ymgynghori â phlant. Mae Senedd Ieuenctid Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru fel ei gilydd yn sefydliadau sy'n annibynnol ar y Llywodraeth, ac sydd â rôl yn herio'r Llywodraeth ar ran plant a phobl ifanc. Ond yn y cyfnod hwn, penderfynodd y pedwar sefydliad gydweithio er mwyn ymateb

i heriau'r coronafeirws. Y rheswm am hynny yw bod yr holl sefydliadau hyn am i blant a phobl ifanc gael cyfle i fynegi eu barn a bod yn rhan o benderfyniadau.

## Dadansoddiad o'r canfyddiadau

Swyddfa'r Comisiynydd Plant arweiniodd yr holl waith o reoli'r prosiect, a hynny'n ariannol annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r partneriaid eraill. Comisiynydd Plant Cymru hefyd yw perchennog data'r prosiect hwn ac sydd â chyfrifoldeb am ddadansoddi a chynhyrchu'r adroddiad hwn. Defnyddir sylwadau a dyfyniadau gan blant a phobl ifanc yn yr adroddiad hwn i ddarlunio rhai o'r canfyddiadau ystadegol. Mae dadansoddiad ansoddol llawn ar waith, ond at ddibenion yr adroddiad hwn defnyddiwyd sampl o 2000 o ymatebion i ganfod themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg mewn ymateb i bob cwestiwn. Mae'r dyfyniadau a ddefnyddiwyd yn dangos y themâu allweddol a nodwyd yn y sampl cychwynnol hwn.

# Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol

## Ydy plant yn pryderu?

Dywedodd 37% o blant a phobl ifanc eu bod nhw ddim yn pryderu am y Coronafeirws ar ddiwrnod cwblhau'r arolwg. Teimlai nifer tebyg (38%) yr un lefel o bryder â'r wythnos flaenorol, tra bod niferoedd llai yn pryderu mwy (12%) neu lai (14%) .

## Beth yw eu pryderon?

Ymhlith eu pryderon mae pa mor hir bydd y sefyllfa'n parhau, ac ofn y byddan nhw neu eu hanwyliaid yn dal y feirws. Mae'r sylwadau gan blant oedd ddim yn pryderu neu oedd yn pryderu llai yn awgrymu eu bod nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu cadw'n ddiogel, bod nifer llai o farwolaethau bob dydd, bod llai o effaith ar blant, neu eu bod nhw'n osgoi gwylio gormod o newyddion.

## Sut mae plant yn teimlo?

Mae'r mwyafrif (58%) o blant a phobl ifanc yn dweud eu bod nhw wedi teimlo'n hapus y rhan fwyaf o'r amser yn ystod yr argyfwng, ac mae mwyafrif mawr (84%) yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel y rhan fwyaf o'r amser. Soniodd pobl ifanc oed uwchradd am fwy o deimladau negyddol na phlant iau, gydag 16% ohonyn nhw'n teimlo'n drist 'y rhan fwyaf o'r amser'. At ei gilydd 2% sy'n dweud mai 'ddim yn aml iawn' maen nhw wedi teimlo'n ddiogel.

## Beth sydd wedi effeithio fwyaf arnyn nhw?

Y tri phrif ymateb gan bobl ifanc (12-18) ynghylch pa reolau aros gartre sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar sut maen nhw'n teimlo yw 'methu treulio amser gyda ffrindiau' (72%), 'peidio â gallu ymweld ag aelodau o'r teulu' (59%) a'r 'ysgol neu'r coleg yn cau' (42%).

## Oes yna unrhyw fanteision?

Mae llawer o blant a phobl ifanc wedi sôn am agweddau cadarnhaol ar eu profiad o'r argyfwng Coronafeirws. Mae llawer wedi cael pleser yn treulio mwy o amser gyda'u teulu, yn dysgu sgiliau newydd ac yn mwynhau'r awyr iach yn yr ardd ac yn eu hymarfer corff dyddiol. I rai, mae'r cyfnod hwn wedi bod yn seibiant hefyd o bwysau cymdeithasol a iechyd blaenorol, fel anawsterau iechyd meddwl a bwlio.

## Ydy plant yn gwybod ble mae cael help ar gyfer iechyd meddwl a llesiant?

Mae'r mwyafrif yn dweud eu bod yn gwybod ble mae cael help, ond dim ond 39% o'r bobl ifanc 12-18 fyddai'n teimlo'n hyderus yn troi at gwnsela ysgol ar hyn o bryd.

## Pa mor hyderus mae plant yn teimlo am ddysgu?

Dewisodd 51% o'r cyfanswm ddweud eu bod yn teimlo'n hyderus neu'n hyderus iawn, tra bod 25% o'r cyfanswm wedi dweud eu bod yn brin o hyder, a 10% o'r grŵp yma'n dweud eu bod 'ddim yn hyderus o gwbl'. Dewisodd 24% o'r cyfanswm yr opsiwn niwtral. Ond mae pobl ifanc 12-18 oed yn sôn am bryderon: dim ond 11% o'r ymatebwyr yn y grŵp oedran yma oedd yn dweud eu bod nhw ddim yn pryderu am eu haddysg, a'r pryder mwyaf y soniwyd amdano ynghylch dysgu oedd eu bod yn pryderu am golli tir (54%).

## Ydy plant mewn cysylltiad â'u hysgolion?

Mae mwyafrif llethol yr ymatebwyr yn sôn am gadw mewn cysylltiad â'u lleoliad addysg, gydag 1-2% yn unig o'r ymatebwyr ar draws y gwahanol arolygon yn dweud bod dim cyswllt.

## Beth yw'r rhwystrau i ddysgu gartref?

Mae'r themâu sy'n dod i'r amlwg o'r sampl o 2000 o sylwadau yn dangos y byddai llawer o blant yn hoffi mwy o gyswllt â'r ysgol a chefnogaeth oddi yno, gyda darpariaeth ychwanegol ar-lein. Mae hefyd heriau penodol yn ymwneud â mynediad at ddyfeisiau electronig a phwysau yn amgylchedd y cartref, a heriau eraill a godwyd gan blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

## Beth mae disgyblion Blwyddyn 6 eisiau?

Mae mwyafrif llethol plant blwyddyn 6 eisiau ffarwelio â'u hysgol gynradd (76%) ac ymweld â'u hysgol uwchradd cyn i'r ysgol gychwyn (75%).

## Sut mae pobl ifanc yn teimlo am arholiadau sydd wedi'u canslo?

Dim ond 17% o bobl ifanc sy'n teimlo'n hapus bod arholiadau wedi cael eu canslo. Roedd pobl ifanc yn fwy tebygol o deimlo'n ansicr (51%) neu'n bryderus (18%). Mae'r bobl ifanc hefyd yn sôn am deimlo'n grac (6%) ac yn drist (5%).

## Ydy pob plentyn yn gallu defnyddio Cymraeg?

Mae'r mwyafrif o blant mewn addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn dal i ddefnyddio Cymraeg yn ystod y cyfnod yma, ond dyw rhai plant sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg ddim yn cael cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg (8% o'r rhai 7-11 oed; 15% o'r rhai 12-18 oed). Nid yw dros chwarter y plant mewn addysg cyfrwng Saesneg sydd fel arfer yn dysgu Cymraeg yn cael cyfle o gwbl i ddefnyddio'r Gymraeg (31% o'r rhai 7-11 oed; 26% o'r rhai 12-18 oed).

## Ydy plant yn dal i fedru chwarae?

Mae tua hanner y plant yn sôn am chwarae mwy nag arfer (53%) ac yn disgrifio ystod eang o chwarae ar-lein ac oddi ar-lein, gan gynnwys chwarae yn yr awyr agored, chwarae dychmygol, chwarae gyda theganau neu gêmau, chwaraeon a chwarae creadigol.

# Sut cynhaliwyd yr arolwg

Nodau'r arolwg oedd sicrhau bod cyfle i brofiadau plant a phobl ifanc o bandemig y coronafeirws a'u barn amdano gael eu cymryd i ystyriaeth gan Lywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Bydd y dystiolaeth a gasglwyd yn yr arolwg yn llywio ymateb llunwyr polisi yng Nghymru, eu gwybodaeth a'u cyfathrebu â phlant a phobl ifanc yn ystod yr argyfwng, ac yn eu helpu i ddatblygu canllawiau a pholisïau ar unwaith ac yn y tymor hwy.

Ar ddechrau'r prosiect lluniwyd Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb i lywio patrwm a dosbarthiad yr ymgynghoriad. Oherwydd cyfyngiadau'r coronafeirws nid oedd modd ymgynghori wyneb yn wyneb o gwbl, ac er mai'r ateb amlwg i hynny oedd cynnig platfform ar-lein, roedd angen meddwl am ffyrdd creadigol o sicrhau bod pob grŵp o blant a phobl ifanc yn cael cyfle i leisio barn, nid lleiaf oherwydd bod y rhaniad digidol sy'n bodoli yng Nghymru yn rhywbeth rydyn ni wedi bod yn eithriadol ymwybodol ohono hyd yn oed cyn y pandemig.

Gan mai'r cyfranogwyr fyddai'n dewis eu hunain ar gyfer yr arolwg, buon ni'n ofalus i sicrhau bod plant a phobl ifanc mewn cynifer o wahanol grwpiau a sefyllfaoedd â phosib yn gallu cyfranogi, ac felly fe lunion ni'r darpariaethau canlynol:

Roedd yr arolwg ar agor i blant 7-18 oed ac mewn tair ffurf: fersiwn i bobl ifanc 12-18 oed, fersiwn rywfaint yn fyrrach ac yn symlach i blant 7-11 oed a fersiwn hygyrch gyda symbolau i helpu darllen ar gyfer plant 7-18 oed.

Fe wnaethon ni ddarparu opsiwn hefyd i rannu barn trwy ddefnyddio lluniau neu eiriau, ar gyfer plant 3-7 oed yn bennaf, ond ar gael hefyd i blant hŷn oedd yn dewis cyfathrebu yn y ffordd honno.

Er mwyn galluogi plant a phobl ifanc heb fynediad at ddyfeisiau electronig a/neu'r rhyngrwyd i gymryd rhan, fe ofynnon ni i ysgolion, grwpiau cymunedol a swyddogion cyfranogiad mewn awdurdodau lleol wneud yr arolwg gyda'r rhai roedden nhw'n gwybod eu bod heb fynediad ar-lein trwy eu galwadau ffôn 'galw heibio' rheolaidd gyda'r teulu.

Profwyd yr holl offer ymgynghori gyda phobl ifanc. Cyfrannodd pobl ifanc oedd yn ymwneud â'r sefydliadau partner fel ymgynghorwyr neu gynrychiolwyr etholedig at ddatblygu'r deunyddiau, gan gynnwys y themâu fyddai'n derbyn sylw. Yna cafodd y themâu y cytunwyd arnynt eu coladu o dan erthyglau perthnasol CCUHP. Bu dros 50 o blant a phobl ifanc o 11 awdurdod lleol yn peilota'r arolwg a'r gweithgaredd lluniau cyn eu lansio, ac arweiniodd eu sylwadau at newidiadau i'r fformat a'r geiriad.

Gofynnwyd i bob Cyfarwyddwr Addysg raeadru'r arolwg i'w hysgolion, a gosodwyd yr arolwg hefyd yn 'dasg arbennig' y tymor yma ar gyfer rhwydwaith ysgolion a grwpiau cymunedol llysgenhadon y Comisiynydd Plant, gyda grwpiau ac ysgolion penodol yn derbyn gohebiaeth wedi'i thargedu er mwyn sicrhau amrywiaeth yn yr ymateb.

Cynhwyswyd data monitro yn yr arolwg, fel bod modd dosbarthu'r canlyniadau yn ôl nodweddion a amddiffynnir a'u dadansoddi i ddatgelu unrhyw batrymau ystadegol sy'n effeithio ar wahanol grwpiau.

Bu swyddfa'r Comisiynydd mewn cysylltiad ag unedau iechyd meddwl cleifion mewnol a lleoliadau diogel cyfiawnder ieuenctid er mwyn i bobl ifanc fedru rhannu eu barn mewn modd diogel, gyda chefnogaeth eu gweithwyr allweddol.

Roedden ni hefyd yn awyddus i sicrhau cynrychiolaeth ddaearyddol mor wastad â phosib, a thrwy fonitro'r gyfradd ymateb yn rheolaidd tra bod yr arolwg ar agor, cafodd awdurdodau lleol, grwpiau cymunedol lleol a gwleidyddion etholedig, gan gynnwys aelodau'r senedd ieuenctid, eu rhybuddio ynghylch ardaloedd oedd yn cael eu tangynrychioli, a derbyn cais i'w hybu.

Rydyn ni wedi cael cadarnhad bod y plant fu'n cymryd rhan yn cynnwys rhai oedd yn byw mewn gofal maeth, cartrefi plant, ysbyty, gofalwyr ifanc a phlant sipsiwn a theithwyr – sydd fel ei gilydd yn grwpiau sy'n aml heb eu cynrychioli mewn arolygon cyffredinol. Rydyn ni hefyd wedi cael barn pobl ifanc mewn cartref plant diogel a sefydliad troseddwyr ifanc. Cafwyd cyfanswm o 95,884 o ymweliadau â thudalen yr arolwg ar y we rhwng 13 Mai a 27 Mai.

Mae tîm y Comisiynydd hefyd wedi cofnodi sylwadau ac ymatebion cadarnhaol a negyddol a gafwyd trwy'r cyfryngau cymdeithasol a'r e-bost, fel rhan o werthusiad parhaus o fethodoleg a llwyddiant y prosiect.

Mae dadansoddiad llawn o ganlyniadau'r arolwg ar waith. Mae'r adroddiad cychwynnol hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau cyffredinol ac yn cynnwys enghreifftiau o'r ymatebion testun rhydd, lle gallai plant fynegi eu hunain yn y geiriau roedden nhw'n dewis. Dylid ystyried yr ymatebion testun rhydd yn yr adroddiad hwn fel mynegiannau unigol: maen nhw wedi'u cynnwys yn union fel y cawson nhw eu cyflwyno yn yr arolwg, heb newidiadau i'r sillafu na'r iaith. Bydd y dadansoddiad dilynol yn dadansoddi cynnwys yr ymatebion testun rhydd, yn ogystal â dadansoddi'r cwestiynau meintiol yn fanylach. Cynhwyswyd data monitro yn yr arolwg, fel bod modd dosbarthu'r canlyniadau yn ôl nodweddion a amddiffynnir, a'u dadansoddi i gael hyd i unrhyw batrymau ystadegol sy'n effeithio ar wahanol grwpiau.

## Cyfyngiadau'r ymgynghoriad

Roedd yn bwysig bod yr arolygon yn rhai cyflym a hawdd eu cwblhau a bod yr ymgynghoriad yn digwydd yn gyflym. Oherwydd y cyfyngiadau hyn nid oedd modd casglu gwybodaeth am nodweddion personol yr ymatebwyr ar lefel ddigon manwl i ganiatáu i ni wybod pa mor gynrychioliadol oedd y sampl. Mae gwybodaeth a rannwyd trwy rwydwaith Llysgenhadon y Comisiynydd yn golygu ein bod ni'n gwybod bod rhai grwpiau o blant a phobl ifanc sy'n aml yn gallu colli cyfle wedi cael cymryd rhan, ond mae'n dal yn bosibl bod y grwpiau hynny wedi'u tangynrydhioli yn y sampl. Ni allwn ddweud yn bendant chwaith nad oedd modd i unigolion gymryd rhan yn yr arolwg fwy nag unwaith.

## Pwy fu'n cymryd rhan?

Bu **cyfanswm o 23,719** o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.

Cymerodd **23,488** ran trwy gwblhau **arolwg**:

- cwblhaodd 11,815 (50%) yr arolwg 7-11 oed
- cwblhaodd 11,002 (47%) yr arolwg 12-18 oed
- cwblhaodd 671 (3%) yr arolwg hygyrch (7-18 oed)

Bu 231 yn cymryd rhan trwy gwblhau **gweithgaredd penagored** i fynegi eu profiadau trwy ysgrifennu neu dynnu llun. Cwblhawyd 193 o'r ymatebion hyn gan blant o dan 7, a chwblhawyd 22 gan blant neu bobl ifanc hŷn. Ni nododd 16 beth oedd eu hoed.

Cafwyd ymatebion i'r arolwg o **bob ardal awdurdod lleol** yng Nghymru. Yr awdurdodau lleol lle cafwyd y nifer uchaf o ymatebion oedd: Caerdydd (3602); Sir Gaerfyrddin (2218); Abertawe (2132). Y nifer isaf o ymatebion a gafwyd gan unrhyw awdurdod oedd 353.

## Gwybodaeth am Gydraddoldeb

Roedd 56% o ymatebwyr yr arolwg yn ferched, 42% yn fechgyn, 1% yn nodi eu bod yn draws ac 1% yn dewis peidio â dweud.

Dywedodd 1077 o'r plant a'r bobl ifanc a gymerodd ran yn yr arolwg fod ganddynt anabledd.

Roedd 19949 o'r ymatebwyr (88%) yn Wyn ac yn Gymry neu'n Brydeinwyr. Cafwyd ymatebion gan blant a phobl ifanc o'r holl grwpiau ethnig a restrir.

Cafwyd ymatebion i'r arolwg gan blant a phobl ifanc o bob oed rhwng 7 ac 18. Plant 10 oed oedd y rhai â'r gynrychiolaeth uchaf (2,694 o ymatebwyr: 12% o'r cyfanswm). Pobl ifanc 18 oed oedd y grŵp oed â'r gynrychiolaeth isaf (467 o ymatebwyr: 2% o'r cyfanswm). Er bod hyn yn dangos bod gorgynrychiolaeth o rai oedrannau, mae'r grwpiau oedran hynny'n annhebygol o gael mynediad i arolygon eraill a fwriadwyd ar gyfer y boblogaeth oedolion a'u cwblhau.

‘’Rydw i’n hapus gyda mami a dadi, ond yn gweld isie pobl. Ond dydw i ddim yn drist’ (Plentyn 4 oed – gogledd-ddwyrain Cymru)

Comisiynydd Plant Cymru
Children’s Commissioner for Wales

# Teimladau

**Mae'r adran hon yn adrodd am deimladau plant a phobl ifanc yn ystod yr argyfwng. Gofynnwyd iddyn nhw hefyd pa mor bryderus oedden nhw ar ddiwrnod cwblhau'r arolwg.**

Ar gyfartaledd, dywedodd 37% o'r plant a'r bobl ifanc nad oedden nhw'n pryderu am y Coronafeirws ar ddiwrnod cwblhau'r arolwg. Teimlai nifer tebyg (38%) yr un lefel o bryder ag oedd ganddynt yr wythnos o'r blaen, tra bod niferoedd llai yn teimlo'n fwy pryderus (12%) neu'n llai pryderus (14%) .

Roedd yr holl gwestiynau'n ddewisol, ond dewisodd nifer fawr o blant wneud sylw am eu hymateb i'r cwestiwn yma. Ymhlith eu pryderon roedd pa mor hir byddai'r sefyllfa'n para ac ofn y bydden nhw neu bobl maen nhw'n eu caru yn dal y feirws.

> *'Mae mami a dadi yn dal i fod angen gweithio, ac mae angen i fi aros gyda nani i gadw'n saff. Dwi'n ofni byddan nhw'n mynd yn dost, a bydda i ddim yn gweld nhw eto' (bachgen 8 oed – de-ddwyrain Cymru)*
>
> *'Achos galle fe beidio mynd am amser hir, a dwi'n gweld isie pobl' (merch 9 oed – gorllewin Cymru)*
>
> *'achos does dim ffordd i wella ac mae wedi lladd 1000oedd o bobl yn barod' (merch 10 oed – canol de Cymru)*
>
> *'Mae gan mamgu broblemau ysgyfaint ac mae hi'n byw gyda fi. Sai'n moyn iddi hi farw fel mae llawer o bobl wedi' (merch 9 oed – gorllewin Cymru)*
>
> *'Mae mam yn gweithio yn yr ysbyty ar ward covid' (bachgen 11 oed – gogledd-ddwyrain Cymru)*
>
> *'Mae gan mam salwch terfynol, felly rydw i'n ofni nawr bydd y feirws yn dal hi, achos tan nawr roedd hi'n gallu byw, ond nawr mae hi'n methu mynd allan, ac os caiff hi'r feirws bydd hi'n marw, achos bydd y sbyty ddim yn rhoi hi ar beiriant anadlu' (bachgen 11 oed – gogledd-ddwyrain Cymru)*

Mae sylwadau eraill yn awgrymu eu bod nhw ddim yn pryderu, neu'n pryderu llai, oherwydd eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel gartre, oherwydd bod nifer y marwolaethau dyddiol yn gostwng, oherwydd bod llai o effaith ar blant, eu bod nhw'n osgoi gwylio gormod o newyddion, neu bod eu teuluoedd yn cadw nhw'n saff.

> *'Dydw i ddim yn poeni – mae mami'n dweud mai job hi yw poeni' (bachgen 7 oed – gogledd-ddwyrain Cymru)*

*'Achos mod i'n dilyn y rheolau cadw pellter a dwi'n eitha ifanc.' (merch 8 oed – canol de Cymru)*

*'Dwi'n dilyn y rheolau ac yn aros mewn. Hefyd dwi'n golchi fy nwylo os ydw i'n mynd mas' (merch 11 oed – de-ddwyrain Cymru)*

**Tabl 1: Sut wyt ti wedi bod yn teimlo yn ystod Argyfwng y Coronafeirws?**


| | Y rhan fwyaf o'r amser | | | Peth o'r amser | | | Ddim yn aml iawn | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedran | 7-18* | 7-11 | 12-18 | 7-18* | 7-11 | 12-18 | 7-18* | 7-11 | 12-18 |
| Hapus % | 58 | 66 | 50 | 34 | 29 | 40 | 8 | 5 | 10 |
| Pryderus % | 12 | 10 | 14 | 39 | 37 | 41 | 48 | 53 | 44 |
| Trist % | 11 | 7 | 16 | 58 | 35 | 41 | 31 | 59 | 43 |
| Diogel % | 84 | 90 | 78 | 13 | 8 | 18 | 2 | 1 | 4 |

*Mae'r golofn 7-18 yn cyfeirio at gyfuniad o ganrannau'r ymatebwyr i'r ddau arolwg (7-11 a 12-18)


Mae modd gweld bod mwyafrif (58%) o'r plant a'r bobl ifanc yn dweud eu bod wedi teimlo'n hapus y rhan fwyaf o'r amser yn ystod yr argyfwng, ac mae mwyafrif mawr (84%) yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel y rhan fwyaf o'r amser. Soniodd pobl ifanc oed uwchradd am fwy o deimladau negyddol na phlant iau, gydag 16% yn teimlo'n drist 'y rhan fwyaf o'r amser'. At ei gilydd 2% sy'n dweud eu bod nhw 'ddim yn aml' wedi teimlo'n ddiogel.

Gofynnwyd cwestiwn symlach i'r plant 7-18 oed a atebodd yr arolwg hygyrch, ac felly does dim modd cymharu'r canlyniadau yn Nhabl 2 â'r canlyniadau yn Nhabl 1.

**Tabl 2: arolwg hygyrch. Sut wyt ti wedi bod yn teimlo am y coronafeirws? (*n* = 633)**



**Tabl 3: arolwg 12-18 oed. Pa newidiadau sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar sut wyt ti'n teimlo? Dewis hyd at dri (*n* = 10937)**




Gallwn weld mai'r tri ymateb ar y brig gan bobl ifanc o ran pa reolau aros gartre sydd wedi cael fwyaf o effaith ar sut maen nhw'n teimlo yw 'methu treulio amser gyda ffrindiau', 'methu mynd i weld aelodau o'r teulu' a'r 'ysgol neu'r coleg yn cau'. Mae'n drawiadol mai colli amser gyda ffrindiau yw'r ffactor uchaf o gryn dipyn.

> *'Roeddwn i'n mynd allan gyda fy ffrindiau yn rhywbeth dyddiol, roeddwn i'n gwneud e bron bob dydd. Mae methu gwneud hynny wedi bod yn anodd' (merch 15 oed – gorllewin Cymru)*

Dywedodd nifer hefyd eu bod yn gweld eisiau eu partneriaid:

> *'Dwi'n methu cael amser o gwbl gyda fy mhartner, sy'n byw mewn teulu arall' (merch 18 oed – canol de Cymru)*

Soniodd nifer am bwysau ar y teulu:

> *'Llawer llai o incwm achos bod un rhiant yn methu gweithio ac yn hunangyflogedig.' (merch 16 oed – de-ddwyrain Cymru)*

> *'Gwnaeth y cyfyngiadau symud fy mhrif aelwyd (gyda nhad) yn anhygoel o elyniaethus, felly rydw i wedi gorfod symud mewn gyda mam, heb fy nghi hardd a heb ddim o'm pethau.' (merch 18 oed – canol de Cymru)*

> *'Alla i ddim gweld dad wyneb yn wyneb, dim ond ar alwadau fideo.' (merch 12 oed – gorllewin Cymru)*

## Teimladau a phrofiadau cadarnhaol

Mae'n drawiadol bod llawer o blant a phobl ifanc yn sôn am agweddau cadarnhaol ar brofiad argyfwng y Coronafeirws. Gallai fod goblygiadau polisi hirdymor i'r canfyddiadau hyn a byddan nhw'n cael eu hystyried yn fanwl gan y sefydliadau partner ar ôl eu dadansoddi'n drylwyr. Mae'r adran hon yn rhoi blas ar sylwadau'r plant a'r bobl ifanc.

I rai, mae'r cyfnod yma wedi bod yn seibiant i'w groesawu o bwysau cymdeithasol a iechyd blaenorol, er enghraifft gofalu am aelodau eraill o'r teulu, anawsterau iechyd meddwl a bwlio.

> *'Cael mwy o help i ofalu am mam a pheidio poeni sut mae hi achos mod i gartre. Yn yr ysgol rydw i'n poeni ydy hi'n iawn'* (merch 12 oed – heb nodi lleoliad)

> *'Mae peidio mynd i'r ysgol wedi helpu fi mewn sawl ffordd; rydw i wedi cael amser i wella o salwch meddwl, a chael seibiant o holl hasl diwrnodau ysgol.'* (traws 13 oed - Gwynedd)

Mae eraill wedi cael pleser gwirioneddol wrth ddysgu sgiliau newydd a mwynhau'r awyr agored yn yr ardd ac wrth wneud ymarfer corff dyddiol. Gall bywydau pob dydd plant fod yn brysur iawn gyda'r ysgol a gweithgareddau a drefnwyd, ac mae'r sylwadau yn yr arolwg yn awgrymu bod yr argyfwng wedi rhoi amser i ddarganfod gwahanol bleserau. Y peth mwyaf trawiadol yw'r nifer fawr o sylwadau am dreulio mwy o amser gydag aelodau'r teulu.

> *'Rydw i wedi dysgu sgiliau newydd (Iaith Arwyddion Prydain), rydw i'n gallu gwrando ar gerddoriaeth wrth wneud fy ngwaith, rydw i'n gallu siarad mwy da ffrindiau sy'n byw'n bell i ffwrdd, rydyn ni wedi creu mwy o gysylltiad â'r cymdogion.'* (merch 14 oed, canol de Cymru)

> *'Bod tu fas, archwilio, dringo, gwneud mwy o ymarfer corff yn yr awyr agored. Mwy hamddenol, llai o ruthro o gwmpas'* (merch 9 oed – canol de Cymru)

> *'cael hwyl yn chwarae rygbi gyda fy rhieni, yn dysgu sgiliau newydd ac yn cadw'n heini ar gyfer y tymor nesa. Rydw i'n mwynhau heriau.'* (bachgen 11 oed, canol de Cymru)

> *'chwarae tu fas, mynd am dro i'r goedwig a'r pwll'* (merch 8 oed – gorllewin Cymru)

> *'Rydw yn cael mwy o amser i fod yn greadigol ac i dreulio amser gyda fy nheulu'* (person ifanc 14 oed – gorllewin Cymru – heb nodi rhywedd)

> *'Mae gen i berthynas agosach gyda fy rhieni. Mae'r gymuned wir wedi dod at ei gilydd. Wedi gwneud i fi werthfawrogi'r pethau bach'* (merch 15 oed – canol de Cymru)

> *'Rydw i'n agosach at fy nheulu achos roedden nhw'n arfer bod allan drwy'r amser. Nawr maen nhw gartre ac rydw i'n siarad mwy da nhw'* (merch 15 oed – de-ddwyrain Cymru)

> *'Rydw i a'm chwaer fach yn nofio, ac rydyn ni bob amser yn cael ein gollwng yn y ganolfan hamdden ar ôl ysgol, ac achos bod ni'n hyfforddi ar amser gwahanol, dydyn ni ddim yn bwyta gyda'n gilydd yn y nos, felly mae'n braf cael amser o safon gyda'r teulu'* (merch 12 oed – de-ddwyrain Cymru)

*'Cyfle i ti wneud pethau doedd gen ti ddim amser i'w gwneud o'r blaen. Mae astudio ym mlwyddyn 13 5 diwrnod yr wythnos gyda (gwaith) rhan amser ar y penwythnos a gwaith cartre yn golygu bod pethau fel ymarfer corff, bwyta'n iawn, darllen ac ymlacio bron yn amhosib.'* (merch 17 oed – canol de Cymru)


# Cefnogaeth Iechyd Meddwl ac Emosiynol

## Erthygl 24 o CCUHP: hawl plentyn i gael gofal iechyd o ansawdd da

Mae llawer wedi mynegi pryderon ynghylch iechyd meddwl pobl o bob oed yn ystod yr argyfwng. Gofynnwyd i blant a phobl ifanc ynghylch ceisio help am hyn. Gofynnwyd i'r plant iau a'r rhai oedd yn ateb y fersiwn hygyrch oedden nhw'n gwybod ble i gael help os oedd angen cefnogaeth arnyn nhw i deimlo'n hapus ac yn iach. Dywedodd 77% o'r plant 7-11 oed 'ydw', doedd 16% ddim yn siŵr ac atebodd 7% 'na'. O'r rhai atebodd yr arolwg hygyrch, dywedodd 70% 'ydw', doedd 23% ddim yn siŵr ac atebodd 8% 'na'.

Gofynnwyd i'r bobl ifanc a ymatebodd i'r arolwg 12-18 oed am y gwahanol fathau o gefnogaeth sydd ar gael:

**Tabl 4: arolwg 12-18 oed. Taset ti angen help gyda iechyd meddwl neu emosiynol nawr, fyddet ti'n hyderus i gael help o'r mannau yma? (*n* = 11,002)**




Mae cyfleoedd i wasanaethau roi gwybodaeth glir i bobl ifanc am sut mae gofyn am help a chynyddu eu hyder trwy esbonio beth fydd yn digwydd os byddan nhw'n gwneud hynny.

# Addysg

## Erthygl 28 o CCUHP: Hawl plentyn i ddysgu.

## Hyder

Mae'r Coronafeirws wedi newid sut mae plant a phobl ifanc yn dysgu. Gofynnwyd i holl ymatebwyr yr arolwg (7-11, 12-18 a'r arolwg hygyrch) nodi **pa mor hyderus** oedden nhw'n teimlo am eu dysgu yn ystod y cyfnod yma.

- dywedodd 51% o'r cyfanswm eu bod nhw'n teimlo'n hyderus neu'n hyderus iawn
- dywedodd 25% o'r cyfanswm eu bod nhw'n brin o hyder, gyda 10% o'r grŵp yma'n dweud eu bod nhw 'ddim yn hyderus o gwbl'
- dewisodd 24% o'r cyfanswm yr opsiwn niwtral.

## Profiadau dysgu cadarnhaol

Mae'r sylwadau testun rhydd yn rhoi cipolwg ar rai o'r rhesymau pam mae rhai'n teimlo'n hyderus, ac yn dangos bod llawer o ymatebwyr yn mwynhau **dysgu hunan-gyfeiriedig** yn amgylchedd y cartref, ac yn datblygu eu sgiliau a'u diddordebau eu hunain. Mae llawer yn sôn am ddysgu sgil newydd, gan gynnwys celfyddydau, crefftau, coginio, dysgu yn yr awyr agored, gwyddoniaeth, ieithoedd a cherddoriaeth:

> *'dysgu am bethau sy'n ddiddorol i fi... rydw i wedi dysgu am blanhigion, cysawd yr haul a chytserau. Rydw i'n teimlo'n fwy clyfar na phan fydda i yn yr ysgol achos mod i'n deall mwy.'* (merch 10 oed – gorllewin Cymru)

> *'Rydw i'n gallu dysgu fy hun a deall y gwaith yn llawer cliriach o gymharu â'r ysgol... Er enghraifft, wnes i erioed ddeall dim byd am Ffiseg yn y dosbarth o'r blaen, ond yn awr, oherwydd y lockdown, rydw i wedi dechrau adolygu, a nawr rwy'n deall am y tro cynta.* (bachgen 15 oed – gorllewin Cymru)

> *'Rydw i wedi dysgu sgiliau newydd fel chwarae'r allweddell a phaentio.'* (merch 8 oed – de-ddwyrain Cymru)

> *'Mae fy mhennau tost oherwydd straen yn yr ysgol wedi lleihau'n ddramatig. Dydw i ddim yn teimlo'r un pwysau, ond rwy'n dal i wneud yr un gwaith, neu falle fwy o waith nag fel arfer. Rydw i wedi joio gweithio gartref, ond bydda i'n joio'r ysgol pan awn ni nôl. Hefyd rydw i wedi cael amser i roi cynnig ar sgiliau newydd fel y piano a choginio'* (merch 15 oed, canol de Cymru)

> *'Gwella sgiliau addysgu annibynnol'* (bachgen 17 oed – gogledd-ddwyrain Cymru)

> *'Dysgu sgiliau newydd i fi fy hun yn y pynciau dwi'n dwlu arnyn nhw (mathemateg, ffiseg, cemeg a cherddoriaeth)'.* (person ifanc 17 oed – canol de Cymru – heb nodi rhywedd)

*'wi ddim moen mynd nol ir ysgol . Dwin teimlo dylai fod ffyrdd gwahanol o ddysgu ar gael sydd ddim yn profi plant o hyd.  Hoffwn i addysg mwy creadigol.'* (merch 14 oed – canol de Cymru)

Thema arall gyffredin yw **llai o bwysau a chyfyngiadau amser** mewn gweithgareddau dysgu:

*'Mae gen i fwy o amser i'w roi i ddysgu sgil newydd'* (bachgen 17 oed – gogledd-ddwyrain Cymru)

*'dwi gyda dyslexia ac yn yr ysgol dwi teimlo yn cael fy rusho ac ddim cael amser ac dwi eisiau aros ac neid addysg gartref tin anhapus yn yr ysgol'* (merch 14 oed – canol de Cymru)

*'Teimlo llai o bwysau ysgol. Rydw i'n gallu cymryd fy amser wrth ddysgu a chreu fy strwythur fy hun.'* (merch 16 oed – canol de Cymru)


O bosib yn gysylltiedig â lefelau hyder cadarnhaol, mae'r rhyngweithio gydag ysgolion yn parhau. Mae mwyafrif llethol yr ymatebwyr yn sôn eu bod yn **cadw mewn cysylltiad** â'u lleoliad addysg, a dim ond 92 (llai nag 1%) o'r plant a gwblhaodd yr arolwg 7-11 oed sy'n dweud bod yr ysgol heb gysylltu â nhw. Mae'r ffigur yma'n cyd-fynd â'r hyn sydd yn yr arolwg hygyrch, lle roedd yr ysgol heb gysylltu â 7 ymatebydd yn unig (1%). Mae hyn yn cymharu â 226 o bobl ifanc (2% o'r cyfanswm) a gwblhaodd yr arolwg 12-18 oed.

Y ffordd fwyaf cyffredin i'r cyswllt ddigwydd yn achos y plant 7-11 oed a'r rhai gwblhaodd yr arolwg hygyrch oedd trwy'r platfform dysgu ar-lein Hwb; e-bost oedd y ffordd fwyaf cyffredin o gysylltu â'r bobl ifanc 12-18 oed. Y rhai lanwodd yr arolwg hygyrch oedd fwyaf tebygol o fod wedi cael cyswllt ffôn, roedd eu hysgol wedi ffonio 51% o'r grŵp yma, o gymharu â 45% o'r ymatebwyr i'r arolwg 7-11 oed a 37% o'r ymatebwyr i'r arolwg 12-18 oed.

## Pryderon ynghylch dysgu

Gofynnwyd cwestiynau ychwanegol i'r bobl ifanc 12-18 oed am eu pryderon. Dim ond 11% o'r ymatebwyr yn y grŵp oed yma ddywedodd eu bod nhw ddim yn pryderu am eu haddysg, a'r pryder mwyaf oedd eu bod yn poeni am golli tir yn eu dysgu (54%).

**Tabl 5: arolwg 12-18 oed. Pa rai o'r brawddegau sy'n dilyn sy'n wir i ti? (dewis faint bynnag rwyt ti eisiau) (*n* = 10873)**




Mae'r sylwadau testun rhydd yn ychwanegu at yr wybodaeth yma, ac yn dangos y byddai llawer o blant a phobl ifanc yn hoffi cael **mwy o gefnogaeth a chyswllt** gan yr ysgol, pan ofynnwyd beth fyddai'n fwy o help iddyn nhw:

> *'Galwad fideo neu ffôn gan fy athro. Rydw i'n gweld isie nhw'* (merch 11 oed – gogledd-ddwyrain Cymru)

> *'Athrawon yn fyw ar zoom neu teams i siarad â ni ar ddechrau'r dydd am ein tasgau addysg gartre y diwrnod yna'* (merch 10 oed – canol de Cymru)

> *'Hoffwn weld mwy o gefnogaeth oddi wrth athrawon i wneud gwersi trwy saflaeoedd fel "zoom" i barhau a fy addysg yn lle dim ond gosod gwaith.'* (merch 13 oed – canol de Cymru)

> *'Byddwn i'n hoffi cael dysgu rhyngweithiol ar-lein gyda'r athrawon ac aelodau'r dosbarth'* (merch 10 oed – canol de Cymru)

> '*mae swm a safon fy ngwaith ysgol wedi lleihau, felly byddwn i'n hoffi cael ambell sgwrs ar Zoom gyda'r athro'* (merch 11 oed – gorllewin Cymru)

Mae sylwadau eraill yn disgrifio **heriau penodol** sy'n effeithio ar grwpiau o blant a phobl ifanc, yn aml yng nghyswllt **mynediad at ddyfeisiau a phwysau yn amgylchedd y cartref**:

> *'Mae Dysgu Gartre yn anodd os yw dy rieni'n weithwyr hanfodol a/neu ddim yn siarad Saesneg yn dda iawn. Mae angen i fi ofalu am fy chwaer fach drwy'r dydd ac esbonio'r taflenni gwaith mae ei hathrawon wedi anfon ati, ac mae'n anodd gwneud hynny i gyd achos bod ni'n rhannu un ddyfais rhwng pawb ohonon ni.'* (merch 17 oed – canol de Cymru)

*'Fe ges i fenthyg laptop trwy'r coleg achos bod dyslecsia gen i, ond mae'r gwefrwr wedi torri, mae'n pallu aros yn y laptop, ac mae hynny'n cael effaith aruthrol arna i'n gwneud fy ngwaith'* (merch 17 oed – gorllewin Cymru)

*'Mae gorfod dysgu'ch hunan yn achosi lot o straen, a does gen i ddim laptop na wifi da gartre, sy'n gwneud pethau'n anodd iawn fel myfyriwr lefel A'* (merch 16 oed – canolbarth Cymru)

Hefyd mae heriau penodol yn cael eu codi yng nghyswllt **anghenion dysgu ychwanegol**:

*'Mae'r gwaith ysgol yn anodd iawn i fi wneud achos bod gen i ddyslecsia ac mae popeth wedi'i ysgrifennu, ac yn anodd i fi ddarllen'* (bachgen 12 oed – gorllewin Cymru)

*'Cael trafferth mawr gyda gwaith ysgol, dydy Hwb ddim yn addas ar gyfer pobl sydd â dyslecsia'* (merch 15 oed – gorllewin Cymru)


*'Mae gen i anhwylder sbectrwm awtistig (ASD) felly mae dim ysgol yn sydyn a threfn wahanol wedi bod yn anodd i fi. Rydw i'n poeni am fynd nôl i'r ysgol. Dydw i ddim yn gwybod pryd. Dydw i ddim yn gwybod pwy fydd yno.'* (bachgen 10 oed – canol de Cymru)

*'Dim cefnogaeth ar gyfer fy ngwaith ysgol. Dim cyswllt â ffrindiau yn y ganolfan ASD yn yr ysgol. Dim cyswllt â'r clybiau arbenigol roeddwn i'n rhan ohonyn nhw'* (bachgen 16 oed – canol de Cymru)

*'Mae gen i asd ac rydw i'n hoffi trefn. Mae strwythur i'r diwrnod ysgol, a dydw i ddim yn hoffi bod allan o'r ysgol, maen nhw'n helpu fi gyda'r dysgu"* (merch 12 oed – gogledd-ddwyrain Cymru))

## Plant Blwyddyn 6

**Tabl 6: arolwg 7-11 oed. Cwestiwn ar gyfer ymatebwyr Blwyddyn 6 yn unig. Pa gefnogaeth fyddi di angen wrth fynd i'r ysgol uwchradd ym mis Medi? (*n* = 2764)**



Er na ofynnwyd cwestiynau penagored penodol am hyn, dewisodd llawer o blant ddisgrifio pryderon ynghylch y pontio i'r ysgol uwchradd yn eu hatebion i gwestiynau penagored eraill. Ymhlith eu pryderon mae'r ymdeimlad eu bod wedi colli profiad blwyddyn 6, tristwch oherwydd eu bod yn gweld eisiau eu grŵp cyfoedion, ofn am ddechrau mewn ysgol newydd, poeni oherwydd ansicrwydd neu bryder am ddychwelyd i amgylchedd ysgol sydd wedi newid ac yn teimlo'n rhyfedd.

> *'Mae wedi bod yn brofiad garw achos rydw i ym mlwyddyn 6, bron ym mlwyddyn 7, ac mae'r pandemig yma wedi mynd â'm blwyddyn olaf yn yr ysgol gynradd, wel nid y cyfan gobeithio.'* (plentyn 11 oed – gorllewin Cymru – heb nodi rhywedd)


> *'Rydw i'n nerfus am fynd nôl i'r ysgol ym mlwyddyn 7, mae'n frawychus'* (merch 11 oed – gorllewin Cymru)

> *'Byddwn i'n hoffi cael peth amser yn fy ysgol Blwyddyn 6 cyn mynd yn syth i Flwyddyn 7 – mae gadael Blwyddyn 6 mor sydyn wedi fy ypsetio a chodi ofn arna i – dydw i ddim wedi cael amser i ddweud hwyl fawr wrth fy ffrindiau, achos rydw i'n mynd i ysgol uwchradd wahanol.'* (merch 11 oed – gogledd-ddwyrain Cymru)

> *'Dwi isho gwbod mwy am be neith Digwydd I fi pan ai ysgol uwchradd oherwydd Dwi heb bod i weld o llawer na Gwybod pa dosbarth fyddai yn. Dwi hefyd yn poeni os ai nol I ysgol cyn gwyliau haf fydd o yn creepy yna just Blwyddyn 6 a hefyd pa gemau Fedrai Chwarae efo ffrindiau Amser chwarae os rhaid aros 2 meters - tydi neb yn deud be sydd yn mynd I digwydd a Di mam a dad ddim hydnod yn gwbod.'* (merch 11 oed – gogledd-orllewin Cymru)

## Canslo arholiadau

**Tabl 7: arolwg 12-18 oed. Cwestiwn ar gyfer ymatebwyr oedd yn sefyll arholiadau yn unig. Sut wyt ti'n teimlo am ganslo'r arholiadau? (dewis yr opsiwn gorau i ti) (n = 4495)**



Gofynnwyd cwestiwn testun rhydd i'r ymatebwyr esbonio pam roedden nhw wedi dewis yr opsiwn yma. Yn aml roedd barn yr ymatebwyr yn gytbwys iawn, yn dangos dealltwriaeth o'r rhesymau am y penderfyniad, ond yn disgrifio effeithiau personol oedd yn amrywio o ddicter, siom, rhyddhad, dryswch i bryderon am sut gallai hyn effeithio ar y dyfodol. Roedd nifer yn pryderu hefyd y gallai canlyniadau gael gwerth is neu fod yn annheg.

> *'Crac – rydw i wedi gwneud cymaint o ymdrech ar gyfer yr arholiadau yma, ac mae'r cyfan yn wastraff nawr' (merch 15 oed – canol de Cymru)*

> *'Ansicr – achos bod fy ngraddau yn nwylo'r athrawon ac alla i ddim rheoli a fydda i'n mynd i'r brifysgol neu beidio nawr.' (bachgen 17 oed – gorllewin Cymru)*

> *'Pryderus – rwy'n poeni bydd cyflogwyr yn y dyfodol ddim yn edrych ar fy nghymwysterau yn yr un ffordd' (merch 18 oed – canol de Cymru)*

## Dysgu tu allan i'r ysgol


Gofynnwyd i blant a phobl ifanc hefyd pa gyfyngiadau oedd yn effeithio fwyaf ar eu dysgu tu allan i'r ysgol. Dewisodd mwyafrif llethol y plant a'r bobl ifanc oedd yn cael eu haddysg mewn lleoliadau ysgol fethu cwrdd â ffrindiau ac ymuno â grwpiau tu allan i'r ysgol fel y newid oedd yn cael yr effaith fwyaf. Cwblhawyd yr arolwg hefyd gan 291 o blant a phobl ifanc sydd fel arfer yn cael eu haddysg gartre, a dewisodd yr ymatebwyr hynny hefyd nodi methu cwrdd â ffrindiau ac ymuno â grwpiau fel y newid oedd yn cael yr effaith fwyaf ar ddysgu.

# Gwybodaeth

## Erthygl 17 o CCUHP: Hawl plentyn i gael gwybodaeth mae'n gallu ei deall


Gofynnwyd i blant yn yr arolwg 7-11 ble roedden nhw'n cael gwybodaeth am y Coronafeirws, a gofynnwyd iddyn nhw roi tic wrth bob ffynhonnell berthnasol. Soniodd yr ymatebwyr yn bennaf am gael gwybodaeth ynghylch y Coronafeirws gan eu teulu, gyda'r teledu'n dilyn, fel mae'r graff isod yn dangos.

**Tabl 8: arolwg 7-11 oed. Ble rwyt ti'n cael dy wybodaeth am y Coronafeirws? (ticia bob un sy'n berthnasol) (*n* = 11775)**




Mae darlun tebyg iawn ymhlith yr ymatebwyr i'r arolwg hygyrch, gan mai'r tair ffynhonnell fwyaf cyffredin o wybodaeth yw'r teulu (76%), y teledu (65%) a'r ysgol (20%). Dywedodd 3% o'r ymatebwyr i'r arolwg hygyrch eu bod nhw ddim yn cael unrhyw wybodaeth. Mae gan y bobl ifanc a gwblhaodd yr arolwg 12-18 ffynonellau gwybodaeth tebyg, ond maen nhw'n fwy tebygol o fod yn cael gwybodaeth ar-lein o wefannau a chyfrifon newyddion.

**Tabl 9: arolwg 12-18 oed. Ble rwyt ti'n cael dy wybodaeth am y Coronafeirws? (ticia bob un sy'n berthnasol) (*n* = 10953)**



# Yr Iaith Gymraeg

## Erthygl 30 o CCUHP: hawl plentyn i siarad ei iaith ei hun

## Plant a Phobl Ifanc sydd fel arfer yn mynd i leoliadau cyfrwng Cymraeg

Mae'r plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg a gwblhaodd yr arolwg 7-11 oed yn dangos bod y mwyafrif yn dal i ddefnyddio'r Gymraeg, gydag 86% yn gwneud gwaith a gweithgareddau o'r ysgol yn Gymraeg, 59% yn darllen llyfrau Cymraeg, a 55% yn defnyddio'r Gymraeg gyda'u teulu. O'r grŵp yma, dywedodd 8% eu bod nhw ddim yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r arolwg 12-18 hefyd yn dangos bod mwyafrif o'r bobl ifanc sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn cael hyd i gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg tra bod yr ysgolion ar gau. Mae 74% yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithgareddau a'r gwaith o'r ysgol, 49% yn defnyddio'r Gymraeg gyda'u teulu a 35% yn defnyddio'r Gymraeg gyda ffrindiau. Ond nid yw 15% yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y cyfnod yma.

## Plant a Phobl Ifanc sydd fel arfer yn mynd i leoliadau cyfrwng Saesneg

Mae'r plant mewn addysg cyfrwng Saesneg a gwblhaodd yr arolwg 7-11 oed, ac sydd fel arfer yn dysgu Cymraeg, yn defnyddio'r Gymraeg yn bennaf mewn gwaith a gweithgareddau o'r ysgol (56%). Ond mae 31% yn dweud eu bod nhw ddim yn cael unrhyw gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.


Ategir hyn yn yr arolwg 12-18, lle mae pobl ifanc o addysg cyfrwng Saesneg, sydd fel arfer yn dysgu Cymraeg, yn defnyddio'r Gymraeg yn bennaf yn eu gwaith ysgol (66%). Ond yn achos y grŵp oedran yma, dyw 26% ddim yn cael unrhyw gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

# Chwarae a Hamdden


## Erthygl 31 o CCUHP: hawl plentyn i ymlacio a chwarae

Gofynnwyd 'Wyt ti'n chwarae'n fwy neu'n llai aml ers i'r ysgolion gau ar 20 Mawrth?' yn y ddau arolwg, er bod 'ymlacio' yn cael ei ddefnyddio yn lle 'chwarae' yn yr arolwg 12-18 oed.

**Tabl 10: arolwg 7-11 oed. Wyt ti'n chwarae'n fwy neu'n llai aml ers i'r ysgolion gau ar 20 Mawrth? (*n* = 11743)**




**Tabl 11: arolwg 12-18 oed. Wyt ti'n ymlacio'n fwy neu'n llai aml ers i'r ysgolion gau ar 20 Mawrth? (*n* = 10912)**



Mae'r arolwg 7-11 a'r arolwg 12-18 yn dangos bod mwy o blant a phobl ifanc yn ymlacio a chwarae yn ystod y cyfnod yma.

Yn achos y plant 7-11 oed, roedd cwestiwn penagored yn dilyn y cwestiwn hwn, yn holi beth mae plant wedi bod yn ei fwynhau fwyaf wrth chwarae. Rhai o'r ymatebion oedd chwarae gyda'r teulu, cysylltu â ffrindiau ar-lein i chwarae gêmau neu sgwrsio, ymarfer corff, chwarae tu allan, a chwarae gyda gêmau neu deganau. Soniodd llawer o blant hefyd am elfennau cadarnhaol bod â mwy o amser i chwarae, fel cael hwyl, cael cyfle i anghofio am y coronafeirws a mwynhau mwy o ryddid.

Roedd gan ymatebwyr yr arolwg 12-18 oed gwestiwn aml-ddewis oedd yn holi sut mae pobl ifanc wedi bod yn ymlacio yn ystod y cyfnod yma. Dywedodd tri o bob pedwar ohonynt eu bod wedi siarad â ffrindiau ar-lein, a chwarae gêmau ar-lein a gwneud ymarfer corff oedd yr ymatebion nesaf mwyaf poblogaidd. Roedd y cwestiwn yn cynnwys opsiwn 'arall' oedd yn rhoi cyfle i'r bobl ifanc ychwanegu, yn eu geiriau eu hunain, unrhyw ffyrdd eraill oedd ganddyn nhw o ymlacio. Ymhlith yr atebion testun rhydd poblogaidd roedd darllen, gwylio'r teledu neu Netflix a threulio amser gyda'r teulu. Soniodd ymatebion eraill am ymarfer corff yn y tŷ, cerdded neu gymryd rhan mewn chwaraeon, codio, pobi, pampro'u hunain a bod yn greadigol trwy chwarae cerddoriaeth, creu fideos TikTok ac ysgrifennu. Roedd yr ymatebion hefyd yn cynnwys elfen o entrepreneuriaeth trwy ddefnyddio'r amser i gynnal sianel YouTube neu greu busnes.

# Gweithgaredd Lluniau

Roedd opsiwn gweithgaredd penagored ar gael er mwyn i blant o dan 7 oed, ac unrhyw bobl ifanc eraill fyddai'n elwa o gyflwyno ymateb fel hyn, allu bod yn rhan o'r ymgynghoriad. Cyflwynwyd 232 o ymatebion, gan gynnwys lluniau, ymatebion ysgrifenedig a cherddi. Cynhwyswyd templed lle gallai'r plant ddewis wyneb i ddangos eu teimladau am aros gartref, ochr yn ochr â blwch agored i ddweud mwy wrthyn ni am eu profiad.

Dewisodd mwyafrif y plant a ymatebodd yr wyneb hapus i gyfleu eu teimladau, gydag ychydig dan draean o'r ymatebion yn dewis yr wyneb niwtral neu drist. Mae hyn yn awgrymu bod plant iau yn mwynhau eu hamser gartref ar y cyfan, hyd yn oed os ydyn nhw'n gweld eisiau rhai pethau neu bobl.




Wrth sôn am eu profiad o aros gartre, yr ymateb gan amlaf oedd eu bod nhw wedi bod yn brysur yn cael addysg gartre neu'n gwneud gwaith roedd yr athro wedi gosod. Hefyd roedd nifer llai o ymatebion yn dweud eu bod wedi dysgu sgil newydd, fel cyfri a dweud yr amser. Soniodd plant yn aml hefyd am chwarae gyda theganau a gêmau, a chwarae gydag aelodau o'r teulu. Soniodd nifer bach am helpu gartref trwy wneud peth glanhau a gofalu am frodyr a chwiorydd iau.

Celf a chrefft oedd y trydydd ateb mwyaf cyffredin, ac roedd gweithgareddau eraill fel coginio, pobi a garddio yn gymharol boblogaidd. Soniodd y plant hefyd am fod yn actif yn gorfforol mewn amrywiol ffyrdd. Mynd am dro gyda'r teulu a reidio'r beic oedd y mwyaf cyffredin, ond roedd cyfeiriadau niferus hefyd at drampolinio, ymarfer corff yn yr awyr agored a gwersi Addysg Gorfforol.

Roedd defnydd o dechnoleg yn llai cyffredin yn y grŵp oed yma. Lle soniwyd am hynny, gwylio'r teledu neu ffilmiau a'i defnyddio i chwarae ar eu pen eu hunain oedd y cyfeiriadau gan amlaf. Soniodd eraill am ddefnyddio technoleg i chwarae gyda ffrindiau ar-lein, i ddysgu, neu i gael galwad fideo gyda'r teulu.

Soniodd rhai plant am olchi eu dwylo, tra bod eraill yn sôn am ddangos cefnogaeth i weithwyr allweddol trwy wneud pethau fel clapio i'r GIG a chreu enfys ar gyfer y tŷ. Niferoedd bach oedd y rhain, ond maen nhw'n dangos sut mae'r plant ifancaf wedi dod i ddeall y newidiadau hyn i'n diwylliant.




Roedd un o'r awgrymiadau ar gyfer y cwestiwn penagored yn gofyn pwy oedd yn cadw plant yn ddiogel tra bod nhw'n aros gartre. Yn ôl y disgwyl, dywedodd mwyafrif yr atebion fod rhiant neu warcheidwad yn eu cadw'n ddiogel, gyda siblingiaid a'r 'teulu' yn fwy cyffredinol yn dilyn. Soniodd nifer bach fod eu hanifeiliaid anwes yn eu cadw'n ddiogel, ac mae hynny'n digwydd ochr yn ochr â sôn am chwarae gydag anifeiliaid anwes fel gweithgaredd. Dywedodd llond dwrn o blant fod neiniau a theidiau'n eu cadw'n ddiogel, a bod gweithwyr allweddol fel meddygon, nyrsys a'r heddlu yn gwneud yr un peth.

Roedd awgrym olaf yn gofyn i'r plant oedden nhw'n gweld eisiau unrhyw beth, er na wnaeth pob plentyn ymateb i hyn. Dywedodd mwyafrif clir o'r rhai a ymatebodd eu bod yn gweld eisiau eu ffrindiau, a dywedodd tua hanner y nifer yna eu bod yn gweld eisiau mynd i'r ysgol neu'r feithrinfa. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd cwrdd â'u cyfoedion a pha mor werthfawr yw perthnasoedd cymdeithasol plant. Dywedodd nifer llai ond arwyddocaol o ymatebion eu bod yn gweld eisiau eu hathro yn benodol. Dywedodd llawer o blant eu bod nhw'n gweld eisiau'r teulu ehangach yn gyffredinol, ac roedd llawer o ymatebion yn cyfeirio'n benodol at neiniau a theidiau.

> *'Rydw i'n hapus gyda mami a dadi, ond yn gweld isie pobl. Ond dydw i ddim yn drist'* (plentyn 4 oed – gogledd-ddwyrain Cymru)
>
> *'Cwtsho gyda Nain a Mamgu, mynd i nofio gyda dadi, mynd i Dyffryn Gardens'* (plentyn 6 oed – canol de Cymru)

Soniodd nifer cymedrol am fethu cymryd rhan mewn hobïau neu glybiau fel pêl-droed neu nofio. Soniodd rhai ymatebion am golli cyfle i fynd ar daith neu leoedd fel y traeth, y llyfrgell neu'r sinema, a'r parc oedd y lle roedden nhw'n ei golli fwyaf ar gyfer ymweliadau. Soniodd llond dwrn o blant am weld

eisiau mynd ar wyliau neu fynd i addoldy. Mae hyn yn awgrymu gan mwyaf bod plant yn edrych ymlaen at fedru ymweld â lleoedd tu allan i'w tŷ, ond mai ysgol a gweld ffrindiau a theulu yw'r blaenoriaethau.

Fe wnaeth rhai plant gynnwys ymatebion creadigol oedd yn datgelu sawl agwedd ar yr effaith ar eu bywyd, ac mae enghraifft wedi'i chynnwys yn ei chrynswth yma:

Fy Nheimladau yn ystod y Coronafeirws

Rydw i'n unig

Rydw i'n ofnus

Rydw i'n ysgol

Rydw i'n uchelgais

Rydw i'n enfysau

Rydw i'n nyrs

Gan ferch 10 oed, de-ddwyrain Cymru.

# Y Camau Nesaf

Mae goblygiadau polisi i ganfyddiadau'r ymgynghoriad hwn, yn awr ac yn y tymor hwy, a byddan nhw'n rhan amhrisiadwy o'r dystiolaeth a ddefnyddir i lywio penderfyniadau gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill. Mae'r briffiad hwn yn rhoi trosolwg er mwyn i lunwyr penderfyniadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol fedru eu cynnwys a'u hadlewyrchu yn eu penderfyniadau ar unwaith. Wedi dadansoddiad manylach, bydd y canlyniadau'n parhau i lywio penderfyniadau â gwybodaeth fydd yn cael ei darparu i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Bydd hyn yn sicrhau bod profiadau a barn plant a phobl ifanc yn ystod y cyfnod yma yn parhau'n ganolog i'r penderfyniadau a fydd yn effeithio ar eu bywydau.